**Hawdd ei Ddeall**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Ysbrydoli

Ein cynllun ar gyfer gwneud Cymru'n lle creadigol 2019-2024



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o **Ysbrydoli... Ein strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru.**

**Gorffennaf 2019**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall. Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm**. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair. Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd yn cael ei ysgrifennu mewn glas cyffredin. Gallwch edrych ar beth mae'n feddwl yn **Geiriau anodd** ar dudalen 23.

Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Ffôn:** 0845 873 4900
(o 9.00am i 5.00pm Dydd Llun i Ddydd Gwener)

**Ffôn testun / neges testun:** 07797 800 504
(Dim ond y pris arferol y bydd rhaid i chi dalu am neges.)

**E-bost:** llywodraethiant@celf.cymru

**Gwefan:** www.celf.cymru

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

**Tudalen**

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon....2**

**Cyflwyniad....4**

**Y pethau sy'n bwysig i ni....8**

1. Mwy o bobl yn creu celfyddyd. A mwy o bobl yn cymryd rhan ac yn mwynhau celfyddyd....10
2. Helpu artistiaid....13
3. Gwneud iddo ddigwydd....15

**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud....16**

Gwneud....16

Cyrraedd....18

Cynnal....20

**Geiriau anodd....23**

# Cyflwyniad

**Cyngor Celfyddydau Cymru** ydyn ni. Ein gwaith ni yw cefnogi'r **celfyddydau** yng Nghymru. Mae'r **celfyddydau** yn meddwl pethau fel






- **Theatr**
- **Cerddoriaeth**
- **Ysgrifennu** – fel llyfrau, storïau neu farddoniaeth
- **Crefftau** – fel gwnïo neu wau
- **Celfyddyd** – fel paentio neu wneud pethau allan o glai
- **Perfformio** – fel dawnsio neu ganu.

Mae arnon ni eisiau i Gymru fod yn lle **creadigol**. Ble mae'r **celfyddydau** yn rhan bwysig o fywyd pawb.

Mae **creadigol** yn meddwl defnyddio ein **dychymyg** a'n syniadau ein hunain i wneud rhywbeth.

Rydyn ni'n defnyddio **dychymyg** i feddwl am syniadau newydd.

Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod y celfyddydau yn helpu i wella **lles** pobl. Yn awr ac yn y dyfodol.

> Mae **lles** yn unrhyw beth sy'n ymwneud â hapusrwydd a iechyd person.

Mae arnon ni angen gofalu am ein **diwylliant** a'n hieithoedd. Maen nhw'n gwneud Cymru'n arbennig

> **Diwylliant** yw'r hanes, y syniadau a'r traddodiadau rydyn ni'n eu rhannu.

Mae arnon ni eisiau dathlu hyn. A helpu pobl i fwynhau'r celfyddydau yn yr iaith maen nhw'n ei dewis.

Mae dychymyg yn bwysig. Ac mae arnon ni eisiau annog celfyddydau newydd a chyffrous. Does arnon ni ddim ofn mentro i helpu pobl i fod yn greadigol.

Mae'r cynllun hwn yn ymwneud â'r gwaith y byddwn ni'n ei wneud er mwyn i hyn ddigwydd dros y pum mlynedd nesaf. Yn y gwaith hwn byddwn yn canolbwyntio ar dri phrif nod:

## 1. Gwneud

Byddwn yn helpu artistiaid a mudiadau celfyddyd i wneud celfyddyd dda iawn.

## 2. Cyrraedd

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn gallu mwynhau celfyddyd Gymraeg.

## 3. Cynnal

Mae **cynnal** yn meddwl helpu rhywbeth i bara am hir.

Byddwn yn cefnogi'r celfyddydau yng Nghymru er mwyn iddyn nhw gael dyfodol diogel. Er enghraifft, bod artistiaid yn cael gyrfa hir. A bod orielau celfyddyd yn cael eu rhedeg yn y ffordd iawn.


galeri

# Y pethau sy'n bwysig i ni

Mae'r cynllun hwn yn ymwneud â'r gwaith y byddwn ni'n ei wneud er mwyn i Gymru fod yn lle creadigol.

Ond mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod ein **holl** waith yn ein helpu i gyrraedd ein prif nodau.

Rydyn ni'n credu y dylai pawb yng Nghymru gael cyfle i gymryd rhan yn y celfyddydau a'u mwynhau nhw. Ble bynnag maen nhw'n byw. Beth bynnag yw eu hoed. Beth bynnag maen nhw'n ei wneud.

Mae'r rhan hwn yn ymwneud â'r ffordd y gall y cynllun hwn ein helpu i wneud hyn.



# 1 Mwy o bobl yn creu celfyddyd. A mwy o bobl yn cymryd rhan mewn celfyddyd ac yn ei fwynhau.

## Gwneud pethau'n wahanol

Does dim digon o bobl yn cymryd rhan mewn celfyddyd ac yn ei fwynhau. Mae arnon ni angen dod o hyd i ffyrdd gwahanol i gael pobl i gymryd rhan.

Mae arnon ni angen bod yn ofalus ynglŷn â'r ffordd rydyn ni'n siarad am y celfyddydau.  Weithiau mae'r iaith rydyn ni'n ei defnyddio yn medru bod yn **rhwystr**.

> Mae **rhwystr** yn rhywbeth sy'n ein rhwystro rhag gwneud rhywbeth. Gall **rhwystrau** gynnwys arian neu'r lle y mae'r person yn byw ynddo.

Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr ein bod yn rhoi arian i wahanol fathau o brosiectau. A gwneud gwahanol fathau o gelfyddyd y byddai mwy o bobl yn cymryd rhan ynddi.

Mae arnon ni eisiau cefnogi celfyddyd yn y cymunedau. Mae arnon ni eisiau i gelfyddyd fod yn rhan o fywyd pob dydd pobl. Mae arnon ni eisiau cynnwys celfyddyd yn ein cynlluniau i wneud lleoedd yn well.

## Pobl ifainc

Mae arnon ni eisiau i bobl ifainc gael y cyfle gorau bosibl i fod yn greadigol o oed ifanc.

Mae **technoleg** yn newid y ffordd rydyn ni'n gweld ac yn dysgu pethau. Mae arnon ni eisiau meddwl am ffyrdd newydd o ddefnyddio **technoleg** i helpu pobl ifainc i ddysgu a dod yn hyderus.

Mae **technoleg** yn unrhyw fath o gyfrifiadur fel cyfrifiadur glin, ffonau symudol a llechi.

Mae arnon ni eisiau i bobl ifainc gredu ynddyn nhw eu hunain. A chredu y gallan nhw fod yn fath o berson y mae arnyn nhw eisiau bod. Byddwn yn dal i weithio ar ein cynllun **Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau** er mwyn cefnogi pobl ifainc.



## Pobl wahanol

Mae'r celfyddydau'n gryfach pan fydd llawer o wahanol bobl yn cymryd rhan.

Yn fwy na dim, mae arnon ni eisiau mwy o bobl anabl a phobl dduon ac Asiaidd a rhai o **leiafrifoedd ethnig** i gymryd mwy o ran.

Mae **lleiafrif ethnig** yn meddwl rhan fach o'r bobl sy'n byw mewn gwlad sy'n wahanol i'r lleill o ran pethau fel iaith, crefydd, diwylliant a lliw croen.

Dim ond i fudiadau sy'n gwneud ymdrech i gael mwy o bobl wahanol i gymryd rhan yn eu rheolaeth a'u gwaith y byddwn ni'n rhoi arian.

Ond y peth y mae arnon ni ei eisiau fwyaf yw i hyn ddod yn gyffredin.

## 2 Helpu artistiaid

### Gwneud y celfyddydau’n gryfach

Byddwn yn chwarae rhan fwy clir i gefnogi artistiaid dawnus.

Rydyn ni’n gwybod y gallwn ni roi cefnogaeth ar adegau pwysig. Mae arnon ni angen bod yna ar yr adeg iawn i helpu artistiaid gael gyrfa dda





# 3 Gwneud iddo ddigwydd

Mae’n rhaid i ni fod yn ofalus wrth roi arian ar gyfer prosiectau celfyddyd.

Mae’n rhaid i ni beidio â gwario gormod o arian ar ein mudiad ein hunain. Mae’n rhaid i ni weithio yn y ffordd orau i wneud yn siŵr nad yw arian yn cael ei wastraffu.

Mae’n rhaid i ni gefnogi mudiadau ac artistiaid. Allwn ni ddim bod yn rhy llym ynglŷn â’r hyn sydd ei angen. Buasai hynny’n rhwystro pobl rhag bod yn rhydd a chreadigol.

Ond mae’n rhaid i ni bob amser wario arian cyhoeddus mewn ffordd sydd orau ar gyfer y cyhoedd.

Mae’n rhaid i ni weithio gyda phartneriaid i wneud y mwyaf o’n hamser a’n harian. Mae gweithio gyda chynghorau lleol yn bwysig i ni. Gyda’n gilydd fe allwn ni gyrraedd pawb yng Nghymru.

# Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud

## Gwneud

### Sut y bydd pobl yn gwneud celfyddyd dda

- Byddwn yn gwneud yn siŵr mai ein prif ffocws fydd cefnogi artistiaid.

- Byddwn yn gwneud mwy i helpu artistiaid a mudiadau i ennill mwy o arian am eu celfyddyd.

- Byddwn yn cefnogi syniadau newydd a gwahanol ar gyfer prosiectau fydd yn cael pobl i gymryd rhan mewn mwy o gelfyddyd gwahanol.

- Byddwn yn dal ati i gefnogi'r mudiadau a'r digwyddiadau gorau yng Nghymru er mwyn iddyn nhw fedru gwneud gwaith newydd cyffrous.

- Byddwn yn dod o hyd i ffyrdd newydd i gefnogi artistiaid i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

- Byddwn yn dod o hyd i fwy o gyfleoedd i bobl anabl a phobl ddu, Asiaidd a rhai o leiafrifoedd ethnig i greu celfyddyd. Ac arddangos eu gwaith.

- Byddwn yn helpu artistiaid a mudiadau i weithio'n dda gyda'i gilydd.

- Byddwn yn gweithio’n well gyda cholegau a phrifysgolion i gefnogi pobl i ddod yn artistiaid. Ac i greu gwahanol fathau o gelfyddyd.

- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y DU a thros y byd i arddangos celfyddyd.

- Byddwn yn gweithio mewn ffyrdd sydd wedi eu cysylltu â’i gilydd i gefnogi artistiaid a mudiadau.

- Byddwn yn cynnal digwyddiadau i ddatblygu ein celfyddydau yng Nghymru.



# Cyrraedd

## Sut byddwn ni'n helpu celfyddyd i gyrraedd mwy o bobl

- Byddwn yn ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan yn y celfyddydau. A chael cymaint o wahanol fathau o bobl â phosibl i gymryd rhan.

- Byddwn yn dal ati i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ei phrosiect **Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau**.

- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar brosiectau sy'n rhoi gwell cyfleoedd i bobl lwyddo mewn bywyd.

- Byddwn yn cynnal digwyddiad person ifanc i ddangos eu creadigrwydd.

- Byddwn yn gwneud yn siŵr mai'r gwaith sydd wedi'i greu ar gyfer pobl ifanc yw'r gorau y gall fod.

- Byddwn yn rhoi cefnogaeth i fudiadau cymdogaeth â phrosiectau celfyddyd fydd yn helpu i newid bywydau.

- Byddwn yn helpu i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddefnyddio technoleg i arddangos celfyddyd.

- Byddwn yn gweithio gyda mudiadau i'w helpu i gael mwy o bobl i gymryd rhan yn eu gwaith.

- Byddwn yn gweithio i gysylltu gwahanol fudiadau celfyddyd â lleoedd i rannu eu gwaith ar gyfer cymunedau.

- Byddwn yn gwneud mwy i gael y bobl anoddaf i'w cyrraedd i gymryd rhan yn y celfyddydau.

- Byddwn yn dod o hyd i brosiectau fydd yn gallu helpu i gyrraedd mwy o bobl mewn ffyrdd gwahanol.

- Byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn treulio ein hamser, yn gwario ein harian ac yn ymdrechu'n deg fel bo pawb yng Nghymru yn cael budd.

- Byddwn yn helpu mudiadau cenedlaethol.

- Byddwn yn helpu artistiaid i arddangos eu gwaith ar draws Cymru a'r byd.

# Cynnal

## Sut byddwn ni'n gwneud i'n gwaith bara

- Byddwn yn cefnogi mudiadau i wneud cynlluniau fydd yn gallu delio'n dda â newidiadau.

- Byddwn yn cefnogi prosiectau a mudiadau sy'n gynaliadwy.

- Byddwn yn annog mudiadau i fod yn fwy cynaliadwy. Ac i ddibynnu llai ar arian gan y cyhoedd.

- Byddwn yn egluro'n glir sut y mae ein gwaith yn ein helpu i gyrraedd ein nodau.

- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod pobl a mudiadau sy'n ymwneud â'r celfyddydau yn gofalu am yr **amgylchedd**.

> Yr **amgylchedd** yw'r lle yr ydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr aer a phopeth sy'n byw arno ac ynddo.

- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod y mudiadau rydyn ni'n eu cefnogi yn cael eu rhedeg yn iawn.

- Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o weithio a rhannu sydd wedi'i gysylltu.



- Byddwn yn hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg yn y celfyddydau.

- Byddwn yn gweithio gyda chynghorau lleol i gadw gwasanaethau ac adeiladau celfyddydau lleol ar agor.

- Byddwn yn cefnogi syniadau sy'n rhoi ffyrdd newydd o ennill arian o'u celfyddyd i artistiaid.

- Byddwn yn siarad ar ran y celfyddydau i wneud yn siŵr bod pobl yn sylweddoli pa mor bwysig ydyn nhw.

- Byddwn yn gwneud gwaith ar iechyd a lles a chael y gymuned i gymryd rhan mewn pethau newydd.

# Geiriau anodd

### Amgylchedd

Yr amgylchedd yw'r lle yr ydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr aer a phopeth sy'n byw arno ac ynddo.

### Creadigol

Mae creadigol yn meddwl defnyddio ein dychymyg a'n syniadau ein hunain i wneud rhywbeth.

### Cynnal

Mae cynnal yn meddwl helpu rhywbeth i bara am hir.

### Diwylliant

Diwylliant yw'r hanes, y syniadau a'r traddodiadau rydyn ni'n eu rhannu.

### Dychymyg

Rydyn ni'n defnyddio dychymyg i feddwl am syniadau newydd.

### Lleiafrifoedd ethnig

Mae lleiafrif ethnig yn meddwl rhan fach o'r bobl sy'n byw mewn gwlad sy'n wahanol i'r lleill o ran pethau fel iaith, crefydd, diwylliant a lliw croen.

### Lles

Mae lles yn unrhyw beth sy'n ymwneud â hapusrwydd a iechyd person.

### Rhwystr

Mae rhwystr yn rhywbeth sy'n ein rhwystro rhag gwneud rhywbeth. Gall rhwystrau gynnwys arian neu'r lle y mae'r person yn byw ynddo.

### Technoleg

Mae technoleg yn unrhyw fath o gyfrifiadur fel cyfrifiadur glin, ffonau symudol a llechi.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

celf.cymru